



Polisi Diogelu
Ysgol Gynradd Clydau
2018/109

Cynnwys

Cyflwyniad	Tudalen 2
Cyfrinachedd	Tudalen 2
Atal	Tudalen 3
Diogelu Gweithdrefnau Honiadau	Tudalen 3
Gwneud atgyfeiriad diogelu	Tudalen 4
Chwythu'r chwiban	Tudalen 5
Diogelu plant mewn amgylchiadau penodol	Tudalen 6
Delio â honiad a wnaed gan blentyn neu berson ifanc	Tudalen 6
Rheoli honiadau yn erbyn oedolion sy'n gweithio gyda phlant	Tudalen 7
Cefnogi plant a phobl ifanc	Tudalen 8
Cwynion	Tudalen 9
Atodiad A - Cyfrifoldebau'r Uwch Berson Dynodedig	Tudalen 10
Atodiad B - Cyfrifoldebau cyrff llywodraethu/perchenogion	Tudalen 14
Atodiad C - Diffiniadau a dangosyddion camdriniaeth	Tudalen 16
Atodiad D - Cam-drin Ymddiriedaeth	Tudalen 19
Adolygiad o Bolisi	Tudalen 20

Cyflwyniad

Mae Ysgol Gynradd Clydau yn cydnabod yn llawn y cyfraniad a wna at ddiogelu. Mae'n gwbl ymrwymedig i adran 175 o Ddeddf Addysg 2002, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu ysgolion a sefydliadau a gynhelir wneud trefniadau i arfer eu swyddogaethau gyda'r nod o ddiogelu a hyrwyddo lles plant gan greu a chynnal amgylchedd dysgu diogel.

Mae tair prif elfen i'n polisi:

- atal drwy addysgu a chymorth bugeiliol a gynigir i ddisgyblion
- gweithdrefnau ar gyfer nodi ac adrodd am gamdriniaeth honedig gan fod staff yr ysgol mewn sefyllfa dda i sylwi ar arwyddion o gamdriniaeth,
- cymorth i ddisgyblion sydd wedi cael eu cam-drin o bosibl.

Byddwn hefyd yn cydweithio ag asiantaethau eraill er mwyn sicrhau bod system gadarn ar gyfer:

- atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant a phobl ifanc;
- hyrwyddo arfer diogel a herio arfer gwael ac anniogel;
- asesu risg a sicrhau bod plant yn ddiogel pan fyddant oddi ar y safle neu ar ymweliadau addysgol
- cyfrannu at waith partneriaeth effeithiol rhwng pawb dan sylw o ran darparu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc
- diogelwch safle yn yr ysgol a'r cyffiniau yn cynnwys derbyn ymwelwyr i'r ysgol

Mae ein polisi yn gymwys i'r **holl** staff, llywodraethwyr a'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn yr ysgol. Bydd ein hysgol yn adolygu'r polisi bob blwyddyn ac mae'n ymrwymedig i ddilyn unrhyw ganllawiau newydd a geir gan Lywodraeth Cymru neu Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru (CYSUR).

Cyfrinachedd

Bydd angen deall cyfrinachedd os bydd plentyn neu berson ifanc yn datgelu gwybodaeth ei fod yn cael ei gam-drin. Dim ond os bydd plentyn neu berson ifanc yn teimlo na chaiff y wybodaeth ei rhannu ag unrhyw un arall y bydd o bosibl yn teimlo'n ddigon hyderus i ymddiried mewn aelod o staff. Fodd bynnag, mae gan staff addysg gyfrifoldeb proffesiynol i rannu gwybodaeth berthnasol am amddiffyn plant â'r asiantaethau statudol dynodedig pan fydd plentyn neu berson ifanc yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Mae'n bwysig bod pob aelod o staff yn sensitif ac yn egluro i'r plentyn neu berson ifanc fod angen hysbysu'r bobl briodol, ond mai dim ond wrth y rhai sydd angen gwybod y bydd yn dweud ac na chaiff y wybodaeth ei rhannu'n gyffredinol. Byddwch yn ymwybodol y gall fod wedi cymryd cryn dipyn o ddewrder ar ran y plentyn i rannu'r gamdriniaeth neu'r esgeulustod ac y gall hefyd fod yn profi emosiynau croes, yn cynnwys teimlo'n euog, â chywilydd ac yn anffyddlon os yw'r camdriniwr yn rhywun agos ato.

Cyfrifoldeb yr ysgol yw sicrhau mai dim ond rheini sydd â chysylltiad proffesiynol, e.e. yr Uwch Berson Dynodedig a'r Pennaeth, sydd â hawl i weld unrhyw gofnodion diogelu. Ar bob adeg arall, dylid eu cadw dan glo yn ddiogel a'u cadw ar wahân i brif ffeil y plentyn neu'r person ifanc. Yr Uwch Berson Dynodedig ar gyfer amddiffyn plant yn yr ysgol hon yw: Mr Sion Jones. Y Dirprwy Uwch Berson Dynodedig ar gyfer amddiffyn plant yn yr ysgol hon yw: Mrs Catrin Davies.

Atal

Rydym yn cydnabod bod hunan-barch uchel, hyder, ffrindiau cefnogol a llinellau cyfathrebu da ag oedolyn y gellir ymddiried ynddo yn helpu i ddiogelu disgyblion.

Felly, bydd yr ysgol:

- yn sefydlu ac yn cynnal ethos lle mae plant yn teimlo'n ddiogel a lle y cânt eu hannog i siarad, a gwrandewir arnynt
- yn sicrhau bod plant yn gwybod bod yna oedolion yn yr ysgol y gallant fynd atynt os ydynt yn poeni neu mewn trafferth
- yn cynnwys gweithgareddau a chyfleoedd ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) yn y cwricwlwm, sy'n rhoi'r sgiliau i blant a phobl ifanc sydd eu hangen arnynt i gadw'n ddiogel rhag camdriniaeth ac i wybod at bwy y gallant droi am help
- yn cynnwys deunydd yn y cwricwlwm a fydd yn helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu agweddau realistig tuag at gyfrifoldebau bywyd fel oedolyn, yn enwedig o ran gofal plant a sgiliau rhianta.

Diogelu Gweithdrefnau Honiadau

Byddwn yn dilyn Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a gymeradwywyd gan Fwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru (CYSUR). Rydym yn cydnabod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014).

- Mae gan yr ysgol Uwch Berson Dynodedig ar gyfer diogelu sydd wedi cael yr hyfforddiant perthnasol. Y person hwn/bobl hyn yw Mr Sion Jones a Mrs Catrin Davies.
- Mae'r ysgol yn cydnabod rôl yr Uwch Berson Dynodedig fel yr amlinellir yn Cadw Dysgwyr yn Ddiogel. (Gweler Atodiad A)
<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150114-keeping-learners-safe-cy.pdf>
- Mae'r ysgol yn sicrhau bod pob aelod o staff a phob llywodraethwr:
 - yn gwybod enw a rôl yr Uwch Berson Dynodedig a'r llywodraethwr dynodedig ar gyfer diogelu
 - yn gwybod bod ganddo gyfrifoldeb personol am atgyfeirio pryderon diogelu gan ddilyn y broses a'r protocolau lleol
 - yn gwybod sut i atgyfeirio pryderon pan na fydd yr Uwch Berson Dynodedig ar gael

- Mae'r ysgol yn sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o arwyddion o gamdriniaeth ac yn effro iddynt ac yn gwybod sut i ymateb i ddisgybl sy'n gwneud honiad
- Mae'r ysgol yn sicrhau bod pob rhiant yn deall cyfrifoldeb yr ysgol i ddiogel ac y caiff hyn ei amlinellu ym mhrosbectws yr ysgol
- Mae'r ysgol yn sicrhau bod pob aelod o staff yn ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant diogelu'r awdurdod lleol y cytunir arno sy'n berthnasol i'w rôl
- Mae'r ysgol yn rhoi gwybodaeth frifio reolaidd ar ddiogelu i bob aelod o staff am:
 - beth yw ei gyfrifoldeb personol o ran diogelu
 - weithdrefnau atgyfeirio lleol o ran diogelu
 - nodi camdriniaeth ac esgeulustod
 - sut i helpu plentyn sy'n honni ei fod yn cael ei gam-drin
 - unrhyw wybodaeth neu weithdrefnau diogelu newydd
- Mae'r ysgol yn hysbysu'r tîm Gofal Cymdeithasol lleol:
 - os caiff disgybl sy'n destun cynllun amddiffyn plant ei wahardd naill ai am gyfnod penodol neu'n barhaol
 - os yw testun cynllun amddiffyn plant yn absennol o'r ysgol am fwy na dau ddiwrnod (neu am ddiwrnod ar ôl y penwythnos)
 - os bydd disgybl sydd â chynllun plentyn sydd angen gofal a chymorth yn absennol o'r ysgol heb eglurhad
- Mae'r ysgol yn cydweithredu ag asiantaethau perthnasol ynghylch ymholiadau diogelu fel sy'n ofynnol yn cynnwys adrodd a mynychu cyfarfodydd strategaeth, cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol/adolygol a chyfarfodydd grŵp craidd.
- Mae'r ysgol yn cadw cofnodion ysgrifenedig o bryderon ynghylch plant (gan nodi'r dyddiad, y digwyddiad a'r camau a gymerwyd), hyd yn oed pan nad oes angen cyfeirio'r mater at y tîm Gofal Cymdeithasol ar unwaith.
- Mae'r ysgol yn sicrhau y cedwir pob cofnod dan glo yn ddiogel
- Mae'r ysgol yn dilyn cylchlythyr Llywodraeth Cymru '[Cadw Dysgwyr yn Ddiogel](#)'.
- Mae'r ysgol yn sicrhau y caiff gweithdrefnau recriwtio a dethol eu gwneud yn unol ag unrhyw brotocol awdurdod lleol a chanllawiau Llywodraeth Cymru 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel' uchod.
- Mae'r ysgol yn dynodi llywodraeth ar gyfer diogelu sy'n gorchwyllo polisi ac arfer diogelu'r ysgol. (Gweler tudalennau Atodiad B - Cyfrifoldebau Cyrrff Llywodraethu/Perchenogion)

Gwneud atgyfeiriad diogelu

Os bydd gan aelod o staff bryderon am les plentyn neu berson ifanc, dylid dweud wrth yr Uwch Berson Dynodedig neu'r Pennaeth ar unwaith. Bydd yn ceisio cyngor gan y Tîm Asesu Gofal Plant ar 01437 776444 ac yn cymryd cyfrifoldeb am wneud unrhyw atgyfeiriad dilynol i'r Tîm Asesu Gofal Plant. Os nad yw'r Uwch Berson Dynodedig ar gael **NI DDYLAI HYN OEDI'R BROSES O WNEUD ATGYFEIRIAD**. Dylai'r aelod o staff geisio cyngor gan y Tîm Asesu Gofal Plant ar unwaith a hysbysu'r Uwch Berson Dynodedig neu'r Pennaeth o'r cyngor neu'r atgyfeiriad cyn gynted â phosibl.

Oes oes gwahaniaeth barn, dylai'r aelod o staff ofyn am gyngor yn uniongyrchol gan y Tîm Asesu Gofal Plant. Os yw'r plentyn neu'r person ifanc ar fin gadael y safle, dylid rhoi gwybod wrth yr Uwch Berson Dynodedig neu'r Pennaeth. Bydd yr Uwch Berson Dynodedig neu'r Pennaeth, mewn ymgynghoriad â'r Tîm Asesu Gofal Plant, yn penderfynu ar y camau nesaf.

Os mai'r cyngor gan y Tîm Asesu Gofal Plant yw y dylid gwneud atgyfeiriad ysgrifenedig at y Tîm Asesu Gofal Plant, dylid cwblhau hyn ar Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol o fewn 48 awr.

Er y caiff oedran a sgiliau llafar plentyn neu berson ifanc eu hystyried bob amser, efallai y bydd yr Heddlu a/neu'r Tîm Asesu Gofal Plant am gyfweld plentyn neu berson ifanc ar safle'r ysgol a gall yr Uwch Berson Dynodedig neu'r Pennaeth ganiatáu'r cais hwn.

Os oes anaf wedi digwydd a ph'un a bod rheswm i gredu ei fod wedi'i achosi gan gamdriniaeth ai peidio, dylid cymryd y camau gweithredu canlynol:

- a) Os yw'r anaf yn ddifrifol ac yn haeddu sylw meddygol ar frys, dylid galw ambiwlans a mynd â'r plentyn neu'r person ifanc i Adran Damweiniau ac Achosion Brys.
- b) Os oes honiad neu achos rhesymol dros gredu bod yr anaf neu'r gamdriniaeth wedi'i achosi gan y rhiant neu'r gofalwr, dylid hysbysu'r Tîm Asesu Gofal Plant AR UNWAITH oherwydd efallai y bydd am wneud trefniadau i'r plentyn gael ei archwilio gan Bediatrydd pan fydd yn cyrraedd yr ysbyty
- c) Trafod gyda'r Tîm Asesu Gofal Plant neu'r Heddlu pwy fydd yn gwneud y penderfyniad o ran pryd y caiff y rhieni/gofalwyr eu hysbysu.

Rhaid rhoi gwybod i'r Uwch Berson Dynodedig neu'r Pennaeth ar unwaith am y camau gweithredu uchod. Gallai methiant gan staff i adrodd am achosion o gamdriniaeth a amheuir arwain at gymryd camau disgyblu yn ei erbyn.

Chwythu'r chwiban

Bydd ein hysgol yn sicrhau bod pob aelod o staff yn gyfarwydd â threfniadau'r awdurdod lleol ar gyfer chwythu'r chwiban ac yn eu hysbysu bod adran 3.3 o bolisi Chwythu'r chwiban yn nodi pan fydd unrhyw bryder yn ymwneud â mater diogelu, bod yn rhaid iddo ymgynghori â'r Tîm Asesu Gofal Plant a fydd, yn ei dro, yn hysbysu'r Swyddog Dynodedig ar gyfer Rheoli Honiadau Proffesiynol ar gyfer yr Awdurdod.

Diogelu plant mewn amgylchiadau penodol:

Mae diffiniadau camdriniaeth ac esgeulustod i'w gweld yng Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan ond hefyd gellir cyfeirio atynt yn rhwydd yn Atodiad C, Diffiniadau a Dangosyddion Cam-drin Plant.

Mae ein hysgol yn cydnabod y gall rhai plant a phobl ifanc fod yn fwy agored i gamdriniaeth ac esgeulustod ac mae gennym ddyletswyddau a chyfrifoldebau diogelu penodol mewn perthynas â'r canlynol (ond nid yn gyfyngedig iddynt):

- Plant sy'n arddangos ymddygiad sy'n niweidiol yn rhywiol neu o gymryd risgiau
- Camfanteisio rhywiol ar blant/Masnachu mewn plant
- Plant sydd mewn perygl o gael eu radcaleiddio
- Plant sy'n ceisio lloches
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth/Camdriniaeth hiliol
- Gwrth-fwlio
- Plant anabl
- E-ddiogelwch/Cadw'n Ddiogel Ar-lein/Secstio
- Plant sy'n Derbyn Gofal
- Plant sy'n byw mewn cartrefi lle ceir cam-drin domestig/Trais ar sail rhyw, cam-drin domestig a thrais rhywiol/trais gan bartner yn ei ardegau
- Radcaleiddio
- Plant sy'n byw gyda rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau neu broblem iechyd meddwl
- Plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuencid
- Priodas dan orfod/Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod
- Pobl ifanc sy'n camddefnyddio sylweddau
- Plant Sy'n Colli Addysg
- Disgyblion â Chyflyrau Meddygol

Caiff yr amrywiaeth ehangach o amgylchiadau diogelu penodol eu hamlinellu yn fanylach ym [Mhennod 4](#) o ganllawiau 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel' Llywodraeth Cymru. Mae'n hanfodol bod staff yn gwbl ymwybodol o'r amgylchiadau diogelu ehangach. Mae gan yr ysgol hefyd ei pholisïau ei hun mewn perthynas â rhai o'r rhain.

Mae gan yr ysgol Bolisi Iechyd a Diogelwch a gaiff ei fonitro'n rheolaidd gan Gorff Llywodraethu'r ysgol. Mae'r Pennaeth a'r Llywodraethwyr yn goruchwylio'r Polisi ac mae'n ofynnol i staff nodi unrhyw bryderon wrth y Pennaeth a fydd naill ai'n cynnal neu'n trefnu archwiliad cychwynnol, gan asesu pa gamau gweithredu y mae angen eu cymryd.

Delio â honiad a wnaed gan blentyn neu berson ifanc

Derbyn

Gwrandu'n ofalus ar yr hyn a gaiff ei ddweud, heb ddangos syndod nac anghrediniaeth. Derbyn yr hyn a ddywedir a hyd yn oed os ydych yn adnabod y plentyn neu'r person ifanc sy'n gwneud yr honiad fel rhywun nad yw'n dweud y gwir bob amser, ni ddylai hyn ddylanwadu ar eich barn na gwneud ei honiad yn annilys. Peidiwch â ceisio ymchwilio i'r honiad. Eich dyletswydd chi fydd gwrandu ar yr hyn sy'n cael ei ddweud a throsglwyddo'r wybodaeth honno.

Rhoi tawelwch meddwl

Rhowch dawelwch meddwl, byddwch yn onest a pheidiwch â gwneud addewidion na allwch eu cadw, e.e. "Bydda i'n aros gyda thi", neu, "Bydd popeth yn iawn nawr".

Lleddfych unrhyw euogrwydd, ond os bydd y disgybl yn cyfeirio ato, e.e. "Nid ti sydd ar fai. Nid dy fai di yw hyn".

Peidiwch ag addo cyfrinachedd oherwydd bydd gennych ddyletswydd i drosglwyddo'r wybodaeth ac mae angen i'r plentyn wybod hyn.

Ymateb

Gallwch ofyn cwestiynau ond ni ddylech gasglu mwy o wybodaeth nag sydd ei angen er mwyn egluro'r honiad, ac fel arfer dylech ond siarad â'r plentyn/plant dan sylw. Byddai'n well os gall y plentyn/plant adrodd yr hanes yn rhydd yn draethiadol, heb dorri ar draws i ofyn cwestiynau. Gallwch annog y plentyn/plant i ddweud wrthyb beth ddigwyddodd yn ei eiriau ei hun gan ddefnyddio anogaeth amhenodol a chwestiynau agored fel "eglura beth ddigwyddodd", "disgrifia beth ddigwyddodd", "a oes unrhyw beth arall yr hoffet ti ei ddweud wrtha i?"

Y cwestiynau agored mwyaf cyffredin yw: Beth ddigwyddodd? Pryd ddigwyddodd hyn? Pam ddigwyddodd hyn? Pwy oedd yno? Peidiwch byth â gofyn Pam oherwydd gall hyn awgrymu bai. Peidiwch â chasglu datganiadau "tystion" oni fydd y Tîm Asesu Gofal Plant yn gofyn am hyn a pheidiwch â gofyn i'r disgybl ailadrodd ei honiad wrth rywun arall oherwydd efallai y bydd yn teimlo nad yw'n cael ei gredu a gall ei atgof o'r hyn ddigwyddodd newid. Peidiwch â beirniadu'r drwgweithredwr oherwydd efallai y bydd gan y disgybl ymlyniad emosiynol cadarnhaol at y person hwn o hyd.

Cofnod

Cadwch gofnod cywir o'r hyn mae'r plentyn wedi'i ddweud yn ei eiriau ei hun ac unrhyw gwestiynau a ofynnwyd gennych chi. Nodwch y dyddiad/blwyddyn a'r amser ar eich cofnod ysgrifenedig a phwy gymerodd y cofnod a chadwch eich nodiadau. Peidiwch â gadael i unrhyw iaith neu eiriau sarhaus a ddefnyddir i ddisgrifio'r gamdriniaeth effeithio arnoch. Os ydych wedi gweld unrhyw gleisiau amlwg, mae'n ddefnyddiol nodi'r lleoliad ond peidiwch â gofyn i'r plentyn dynnu unrhyw ddrillad at y diben hwn. Cofnodwch ddatganiadau ac agweddau rydych yn arsylwi arnynt yn hytrach na'ch dehongliadau neu dybiaethau.

Camau Olaf

Yna, dylid ceisio cyngor gan yr Uwch Berson Dynodedig neu'r Pennaeth a all atgyfeirio at asiantaethau priodol neu geisio cyngor gan y Tîm Asesu Gofal Plant.

Rheoli honiadau yn erbyn oedolion sy'n gweithio gyda phlant

Os gwneir honiad yn erbyn aelod o staff gan blentyn neu berson ifanc, bydd yr ysgol yn dilyn canllawiau Bwrdd Diogelu Plant Sir Benfro yr awdurdod lleol '[Rheoli Honiadau yn erbyn Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant 2013](#)'. Rhaid i'r person y gwneir yr honiad hwnnw wrtho drosglwyddo manylion y pryder ar unwaith i'r Pennaeth neu, yn ei absenoldeb, aelod o staff â

chyfrifoldebau arwain uwch. Yna, bydd y Pennaeth yn cysylltu â'r Tîm Asesu Gofal Plant i drafod y camau nesaf yn unol â threfniadau lleol. Gall y Pennaeth hefyd geisio cyngor gan y Swyddog Dynodedig ar gyfer Rheoli Honiadau Proffesiynol ar 01437 776222.

Os gwneir honiad diogelwch posibl yn erbyn y Pennaeth, rhaid i'r aelod o staff y gwneir yr honiad hwnnw wrtho gysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr a fydd wedyn yn cysylltu â'r Tîm Asesu Gofal Plant neu'r Swyddog Dynodedig ar gyfer Rheoli Honiadau Proffesiynol.

Gellir cael cyngor gan y Tîm Asesu Gofal Plant neu'r Swyddog Dynodedig ar gyfer Rheoli Honiadau Proffesiynol.

Cam-drin sefyllfa o ymddiriedaeth

Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi bod angen i bob aelod o staff addysg wybod bod ymddygiad amhriodol gyda neu tuag at blant yn annerbyniol. Yn benodol, dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, mae'n drosedd i berson dros 18 oed (er enghraifft athro, gweithiwr ieuencid) gael cydberthynas rywiol â phlentyn dan 18 oed lle mae'r person hwnnw mewn sefyllfa o ymddiriedaeth mewn perthynas â'r plentyn hwnnw, hyd yn oed os yw'r gydberthynas yn gydlynol. Mae hyn yn berthnasol pan fydd y plentyn neu'r person ifanc mewn addysg llawn amser a bod y person yn gweithio i'r un sefydliad, hyd yn oed os nad yw'n addysgu'r plentyn neu'r person ifanc. (Gweler Atodiad D – Cam-drin Ymddiriedaeth)

Cefnogi plant a phobl ifanc

Mae camdriniaeth ac esgeulustod yn ddinistriol i blentyn neu berson ifanc a gall hefyd arwain at ofid a phryder i'r staff dan sylw. Rydym yn cydnabod y gall sefyllfa lle mae plentyn yn cael ei gam-drin a'i esgeuluso gael effaith fawr ar y plentyn hwnnw. Efallai mai'r ysgol yw'r unig elfen sefydlog, diogel a rhagweladwy ym mywydau plant a phobl ifanc sy'n cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Fodd bynnag, gall eu hymddygiad fod yn heriol yn yr ysgol neu gallant fynd i'w cragen. Bydd yr ysgol yn ymdrechu i gefnogi'r disgybl drwy'r canlynol:

- cymryd pob honiad o ddifrif
- sicrhau bod yr Uwch Berson Dynodedig yn hysbysu pawb dan sylw ac yn gweithredu fel y pwynt cyswllt canolog. Pan fydd aelod o staff yn destun honiad a wneir gan blentyn neu berson ifanc, caiff person cyswllt ar wahân ei enwebu er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau.
- ymateb yn llawn cydymdeimlad i unrhyw gais gan ddisgyblion neu staff ar gyfer amser tawelu i ddelio â gofid neu bryder
- cynnal cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth ar sail angen gwybod yn unig gyda'r unigolion a'r asiantaethau perthnasol
- cadw a storio cofnodion yn ddiogel a hysbysu'r tîm Gofal Cymdeithasol cyn gynted ag y bydd pryder yn ailgodi
- cynnig manylion llinellau cymorth, cwnsela neu ffynonellau cymorth allanol eraill
- cydweithredu'n llawn ag asiantaethau statudol perthnasol

Mae cynnwys y cwricwlwm yn annog hunan-barch a hunanysgogiad fel yr amlinellir ym [Mhennod 2](#) o ganllawiau 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel' Llywodraeth Cymru a bydd yn hyrwyddo

amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel ac yn rhoi ymdeimlad o gael eu gwerthfawrogi i blant a phobl ifanc.

Dim ond strategaethau ymddygiad cadarnhaol y bydd yr ysgol yn eu defnyddio wedi'u hanelu at gefnogi plant a phobl ifanc gan ein bod yn cydnabod y gall rhai plant fabwysiadu ymddygiad amharchus y dylid eu hatgyfeirio i gael cymorth ac ymyrraeth fewnol briodol.

Bydd yr ysgol yn ymdrechu i sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc yn gwybod bod rhai mathau o ymddygiad yn annerbyniol ond eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac nad ydynt yn cael eu beio am unrhyw gamdriniaeth sydd wedi digwydd. Bydd yr ysgol:

- yn cytuno ar ddull gweithredu cyson sy'n canolbwyntio ar ymddygiad y plentyn neu'r person ifanc ond nad yw'n niweidio ei hunanwerth
- yn cysylltu ag asiantaethau eraill megis Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol, Gwasanaethau Cymorth Ymddygiad, Gwasanaeth Cymorth Disgyblion a gwasanaethau eiriolaeth o bosibl os oes angen

Pan fydd plentyn neu berson ifanc sy'n destun cynllun amddiffyn plant yn cael ei drosglwyddo i ysgol arall, bydd yr Uwch Berson Dynodedig yn cysylltu ar unwaith â'r swyddog perthnasol yn yr ysgol newydd er mwyn trefnu bod unrhyw wybodaeth diogelu berthnasol neu gynllun amddiffyn plant yn cael ei drosglwyddo (ar ôl cytuno â'r Cadeirydd y Gynhadledd Amddiffyn Plant).

Defnyddio ymyriad corfforol

Nodir ein polisi ar ymyriad corfforol yn ein polisi awdurdod lleol ['Trin a Defnyddio Ardaloedd Amser Tawelu yn Gadarnhaol ar gyfer Ysgolion/Lleoliadau Addysg'](#) a chaiff ei adolygu'n flynyddol gan y corff llywodraethu ac mae'n gyson â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar ['Ymyriad diogel ac effeithiol: defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau 097/2013'](#)

Cwynion

Mae gan yr ysgol Weithdrefn Gwyno, sy'n seiliedig ar y model sydd wedi'i gynnwys yn y [Gweithdrefnau Gwyno ar gyfer Cyrff Llywodraethu Ysgolion yng Nghymru](#), ac, yn ogystal, mae ganddi wybodaeth gwyno i blant fel y gall plant, staff a'r cyhoedd gyflwyno eu cwynion, mewn perthynas â'r ysgol, yn cynnwys cwynion a phryderon Diogelu nad yw'r camau gweithredu Diogelu wedi'u cymryd.

Atodiad A

Cyfrifoldebau'r Uwch Berson Dynodedig ar gyfer diogelu

1.00 Dylai pob ysgol nodi Uwch Berson Dynodedig gyda chyfrifoldeb arweiniol am reoli materion diogelu. Dylai'r Uwch Berson Dynodedig wybod sut i gydnabod a nodi arwyddion camdriniaeth ac esgeulustod a gwybod pryd mae'n briodol atgyfeirio at yr asiantaethau perthnasol. Mae'r rôl yn cynnwys rhoi cyngor a chymorth i aelodau eraill o staff, atgyfeirio at asiantaethau eraill a gweithio gyda nhw fel y bo'r angen. Nid ymchwilio i honiadau yw rôl yr Uwch Berson Dynodedig, ond rhaid iddo hysbysu'r pennaeth am bob mater diogelu.

1.01 Nid oes angen i'r Uwch Berson Dynodedig fod yn athro, ond rhaid iddo fod yn aelod o'r uwch dîm arwain gyda'r statws a'r awdurdod o fewn y sefydliad i gyflawni dyletswyddau'r swydd, yn cynnwys ymrwymo adnoddau ar gyfer diogelu, a chyfarwyddo aelodau eraill o staff pan fo'n briodol.

1.02 Mewn sawl ysgol, bydd un Uwch Berson Dynodedig yn ddigon, ond dylai fod dirprwy ar gael i weithredu yn ei absenoldeb. Mewn sefydliadau sydd wedi'u trefnu ar wahanol safleoedd neu gyda strwythurau rheoli ar wahân, dylai fod Uwch Berson Dynodedig ar gyfer pob rhan neu safle. Mewn sefydliadau mawr, neu sefydliadau sydd â nifer fawr o bryderon diogelu, gall fod angen cale nifer o ddirprwyon neu dîm diogelu er mwyn delio â'r cyfrifoldebau.

1.03 Nid oes angen i'r Uwch Berson Dynodedig fod yn arbenigwr ym maes diogelu ond bydd yn cymryd cyfrifoldeb am arfer diogelu, polisi, gweithdrefnau a datblygiad proffesiynol y sefydliad gan weithio gydag asiantaethau eraill yn ôl yr angen. Dylai'r pennaeth sicrhau bod yr Uwch Berson Dynodedig:

- yn cael digon o amser ac adnoddau i gyflawni'r rôl yn effeithiol, y dylid ei ddiffinio'n glir yn nisgrifiad swydd deiliad y swydd
- yn cael mynediad i'r lefelau gofynnol o hyfforddiant a chymorth er mwyn ymgymryd â'r rôl
- yn cael amser i fynychu cynadleddau amddiffyn plant a chyfarfodydd rhyngasiantaethol eraill a rhoi adroddiadau a chyngor fel sy'n ofynnol.

Atgyfeiriadau

1.04 Dylai'r Uwch Berson Dynodedig weithredu fel pwynt cyswllt a ffynhonnell o gymorth, cyngor ac arbenigedd yn y sefydliad wrth benderfynu a ddylid atgyfeirio drwy gysylltu ag asiantaethau perthnasol.

1.05 Mae'r Uwch Berson Dynodedig yn gyfrifol am wneud atgyfeiriadau ynghylch honiadau o gam-drin at yr asiantaethau ymchwilio perthnasol. Pan fydd y rhain yn ymwneud ag achosion o gamdriniaeth honedig neu honiadau yn erbyn staff, nodir y broses yng nghanllawiau

Llywodraeth Cymru [Diogelu plant mewn addysg: ymdrin â honiadau o gam-drin proffesiynol yn erbyn athrawon a staff eraill](#) a'r awdurdod lleol '[Rheoli Honiadau yn erbyn Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant 2013](#)'.

Cadw cofnodion

1.06 Cyfrifoldeb yr Uwch Berson Dynodedig yw cadw cofnodion ysgrifenedig/electronig manwl, cywir a diogel o blant a phobl ifanc lle ceir pryderon diogelu. Mae'r cofnodion hyn yn gyfrinachol a dylid eu cadw ar wahân i gofnodion disgyblion. Dylent gynnwys cronoleg o bryderon, atgyfeiriadau, cyfarfodydd, galwadau ffôn a negeseuon e-bost.

1.07 Pan fydd plant neu bobl ifanc yn gadael y sefydliad, dylai'r Uwch Berson Dynodedig sicrhau y caiff ei ffeil diogelu ei chopio i'r sefydliad newydd cyn gynted â phosibl ond y caiff ei throsglwyddo ar wahân i brif ffeil y disgybl.

Codi ymwybyddiaeth

1.08 Mae'r Uwch Berson Dynodedig yn gyfrifol am sicrhau bod y rhieni neu'r gofalwyr yn ymwybodol o bolisi diogelu'r ysgol. Mae hyn yn osgoi'r posibilrwydd o wrthdaro drwy eu hysbysu am rôl y sefydliad a'r ddyletswydd i adrodd am bryderon. Mae llawer o ysgolion yn cynnwys gwybodaeth am hyn mewn cyfarfodydd sefydlu i rieni newydd, yn eu prosectws ac ar eu gwefan.

1.09 Mae'n arfer da i'r Uwch Berson Dynodedig roi sesiwn frifio flynyddol a'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd mewn cyfarfodydd staff ar unrhyw wybodaeth diogelu newydd neu newidiadau mewn gweithdrefnau lleol. Mae hyn yn sicrhau y caiff pob aelod o staff y wybodaeth ddiweddaraf ac y cânt eu hatgoffa'n rheolaidd o'u cyfrifoldebau, a pholisïau a gweithdrefnau'r ysgol. Mae llawer o ysgolion yn ei chael hi'n ddefnyddiol trafod diogelu yn rheolaidd mewn cyfarfodydd staff er mwyn sicrhau bod ymwybyddiaeth yn aros yn uchel.

1.10 Dylai'r Uwch Berson Dynodedig gysylltu â'r Llywodraethwr Dynodedig ar gyfer diogelu, fel bod y materion diogelu yn cael eu cofnodi yng nghyfarfodydd y corff llywodraethu. Ni ddylai adroddiadau i'r corff llywodraeth fod am blant a phobl ifanc penodol, ond dylai adolygu'r polisïau a gweithdrefnau diogelu. Mae'n arfer da i'r llywodraethwr enwebedig a'r uwch Berson Dynodedig gyflwyno'r adroddiad gyda'i gilydd.

1.11 Dylai'r Uwch Berson Dynodedig a'r llywodraethwr diogelu sicrhau y caiff polisi diogelu'r sefydliad ei adolygu'n flynyddol.

Adolygu polisi

1.12 Yn ogystal â pholisi diogelu'r ysgol, mae polisïau eraill sy'n berthnasol i ddiogelu a gall yr Uwch Berson Dynodedig fod yn rhan o'r broses o fonitro effeithiolrwydd y polisïau eraill hyn er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn diogelu ei disgyblion. Gall polisïau perthnasol eraill gynnwys:

- arfer gweithio mwy diogel

- presenoldeb ac ymddygiad
- trin cadarnhaol/ymyrryd yn Gorfforol
- cod ymddygiad staff
- gwrth-fwlio
- gofal personol
- recriwtio a dethol
- e-ddiogelwch
- cyfrinachedd
- radicaleiddio
- cynllun cydraddoldeb strategol

Ceir polisiau diogelu eraill ar ardal diogelu'r awdurdod lleol ar HWB (Cwmwl Addysg).

1.13 Gellir cael rhagor o gymorth ac arweiniad ar gyfer yr Uwch Berson Dynodedig gan yr awdurdod lleol. Mae'r NSPCC hefyd yn rhoi adnoddau a chanllawiau defnyddiol.

Hyfforddiant diogelu ac amlasiantaeth

1.14 Rôl yr Uwch Berson Dynodedig, gan weithio gyda'r pennaeth, yw sicrhau bod pob aelod o staff a gwirfoddolwr:

- yn gallu cael gafael ar bolisi diogelu'r ysgol ac yn ei ddeall, yn enwedig staff newydd, rhan amser, neu staff cyflenwi a all fod yn gweithio gyda sefydliadau addysgol gwahanol
- yn cael proses sefydlu a hyfforddiant diogelu
- yn gallu adnabod arwyddion a dangosyddion camdriniaeth ac esgeulustod
- yn gwybod sut i ymateb yn effeithiol pan fydd ganddo bryderon
- yn gwybod sut i ymateb i honiad yn briodol
- yn gwybod bod ganddo gyfrifoldeb i adrodd am unrhyw bryderon ar unwaith

1.15 Dylid cadw cofnodion gan yr Uwch Berson Dynodedig o'r dyddiadau hyfforddi, y darparwr a chofnod o bresenoldeb staff.

1.16 Yn ogystal â'r gofyniad i Gadeirydd y Llywodraethwyr a'r Llywodraethwr Dynodedig ymgymryd â hyfforddiant diogelu, dylid rhoi mynediad i faterion diogelu i bob llywodraethwr er mwyn sicrhau lefel sylfaenol a chyson o ymwybyddiaeth. Mae cyrff llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion statudol a dylai pob llywodraethwr wybod beth i'w wneud os bydd ganddo bryderon am blentyn.

1.17 Dylai athrawon gael hyfforddiant ar faterion diogelu fel rhan o'r hyfforddiant i Athrawon Cymwys ond bydd angen i hyn gael ei atgyfnerthu gan hyfforddiant ar weithdrefnau lleol pan gânt eu penodi am y tro cyntaf. Mae'r Safonau SAC yn gyfres o ddatganiadau canlyniadau y mae'n rhaid i athrawon dan hyfforddiant eu cyflawni sy'n gysylltiedig â chyhoeddiadau eraill a gofynion statudol lle y bo'n briodol.

1.18 Mae hefyd yn ofynnol i athrawon dan hyfforddiant ddangos proffesiynoldeb er mwyn sicrhau y caiff cydberthnasau â dysgwyr eu hadeiladu ar ymddiriedaeth a pharch rhwng ei

gilydd, a chydabod y bydd hyn yn helpu i sicrhau eu bod yn dysgu cymaint â phosibl. Disgwylir iddynt ddangos tystiolaeth o'r safon hon drwy allu dangos gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o hawliau a hawliadau pob dysgwr, fel y nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a pholisïau allweddol Llywodraeth Cymru.

1.19 Dylai staff a llywodraethwyr eraill gael hyfforddiant pan gânt eu penodi am y tro cyntaf. Dylai pob aelod o staff nad oes ganddynt gyfrifoldeb dynodedig am ddiogelu, yn cynnwys athrawon, ymgymryd â hyfforddiant lleol addas yn rheolaidd wedi hynny, er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau diweddaraf.

1.20 Mae ysgolion unigol yn gyfrifol am sicrhau bod gan staff y gallu a'r hyder i gyflawni eu cyfrifoldebau am ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Bydd yr awdurdod lleol yn gallu rhoi cyngor ar y lefelau gofynnol o hyfforddiant sy'n ofynnol gan staff.

1.21 Ceir rhagor o wybodaeth am hyfforddiant a datblygiad rhyngasiantaethol ym mhennod 11 o [Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004](#).

1.22 Diben hyfforddiant amlasiantaethol yw cyflawni canlyniadau gwell ar gyfer plant a phobl ifanc yn cynnwys:

- dealltwriaeth a rennir o'r tasgau, prosesau, egwyddorion a rolau a'r cyfrifoldebau a amlinellir mewn canllawiau cenedlaethol a threfniadau lleol ar gyfer diogelu plant a hyrwyddo eu lles
- gwasanaethau mwy effeithiol ac integredig ar lefel strategol ac unigol
- cysylltiadau gwell rhwng gweithwyr proffesiynol yn cynnwys dealltwriaeth gyffredin o dermau allweddol, diffiniadau, a throthwyon
- cydberthnasau gwaith effeithiol, yn cynnwys gallu i weithio mewn grwpiau neu dimau amlddisgyblaethol
- gwneud penderfyniadau cadarn yn seiliedig ar rannu gwybodaeth, asesiad trylwyr, dadansoddiad beirniadol a barn broffesiynol.

1.23 Dylai'r Uwch Berson Dynodedig gael hyfforddiant mewn gweithdrefnau rhyngasiantaethol sy'n eu galluogi i weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, ac mae'n rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu cyfrifoldebau. Dylent hefyd ymgymryd â hyfforddiant rheolaidd i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau diweddaraf.

1.24 Dylai aelodau eraill o staff gael hyfforddiant pan gânt eu penodi am y tro cyntaf ac ymgymryd â hyfforddiant rheolaidd er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau diweddaraf.

1.25 Cyhoeddwyd y fersiwn ddiwygiedig o [Dod yn Athro Cymwysedig: Llawlyfr Canllawiau](#) gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2014. Roedd yn adlewyrchu newidiadau diweddar i'r gofynion mynediad ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon yn Adran 2 o'r ddogfen – Gofynion ar gyfer Darparu Cysiau HCA. Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth i ddarparwyr HCA ar y canllawiau diweddaraf ar ddiogelu plant mewn addysg.

Cyfrifoldebau cyrff llywodraethu/perchenogion

2.00 Mae cyrff llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau effeithiol ar waith ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant yn unol â'r canllawiau hyn, a monitro cydymffurfiaeth â nhw.

2.01 Dylai cyrff llywodraethu ysgolion a pherchnogion ysgolion annibynnol sicrhau bod eu priod sefydliadau:

- yn meddu ar bolisiau a gweithdrefnau diogelu effeithiol ar waith sydd:
 - yn unol â chanllawiau awdurdod lleol a gweithdrefnau rhyngasianaethol y cytunwyd arnynt yn lleol
 - yn cynnwys gwasanaethau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r diwrnod ysgol (e.e. llety preswyl, gweithgareddau cymunedol ar safle'r ysgol, ac ati)
 - yn cael eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn
 - ar gael i rieni neu ofalwyr ar gais
 - yn cael eu darparu mewn fformat sy'n briodol i ddeallusrwydd plant, yn enwedig lle mae'r ysgolion yn darparu ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol
- yn gweithredu gweithdrefnau recriwtio diogel sy'n ystyried yr angen i ddiogelu plant a phobl ifanc, yn cynnwys trefniadau i sicrhau bod yr holl archwiliadau priodol yn cael eu cynnal ar staff newydd a gwirfoddolwyr heb oruchwyliaeth a fydd yn gweithio gyda phlant, yn cynnwys archwiliadau perthnasol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- yn sicrhau bod y pennaeth a'r holl staff a gwirfoddolwyr parhaol eraill sy'n gweithio gyda phlant yn ymgymryd â hyfforddiant priodol er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau sy'n angenrheidiol i gyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer diogelu yn effeithiol, a gyflawnir drwy hyfforddiant rheolaidd
- yn rhoi canllawiau clir i staff a gwirfoddolwyr dros dro sy'n cyflenwi yn ystod absenoldebau byrdymor ac a fydd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc ar drefniadau'r sefydliad ar gyfer diogelu a'u cyfrifoldebau
- yn sicrhau bod y corff llywodraethu yn unioni unrhyw ddiffygion neu wendidau mewn perthynas â threfniadau diogelu a godir yn ddi-oed
- yn sicrhau bod yr Uwch Berson Dynodedig, y llywodraethwr dynodedig a chadeirydd y llywodraethwyr yn ymgymryd â hyfforddiant mewn gwaith rhyngasiantaethol yn unol â threfniadau awdurdod lleol ac yn diweddarau eu gwybodaeth a'u sgiliau yn rheolaidd, yn ogystal ag ymgymryd â hyfforddiant diogelu

Llywodraethwr dynodedig

2.02 Nodi Llywodraethwr Dynodedig ar gyfer Diogelu i wneud y canlynol:

- cymryd cyfrifoldeb am faterion diogelu
- sicrhau bod y corff llywodraethu yn adolygu polisïau a gweithdrefnau'r ysgol bob blwyddyn
- bod yn llywodraethwr dynodedig i gynnal cyswllt â'r awdurdodau statudol mewn perthynas â'r broses ddisgyblu fel y nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru [Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo ar gyfer Staff Ysgol \(002/2013\)](#), a
- sicrhau bod y corff llywodraethu/perchennog yn cynnal adolygiad blynyddol o bolisïau a gweithdrefnau diogel a'r modd y mae'r dyletswyddau uchod wedi cael eu cyflawni.

2.03 Er bod gan gyrff llywodraethu rôl yn arfer eu swyddogaethau disgyblu mewn perthynas â diogelu honiadau yn erbyn aelod o staff, nid oes ganddynt rôl yn y broses o ystyried achosion unigol yr ymchwilir iddynt dan drefniadau a nodir yn [Diogelu plant mewn addysg: ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill](#) (cylchlythyr Llywodraeth Cymru 009/2014).

2.04 P'un a fydd y corff llywodraethu yn gweithredu ar y cyd neu y bydd aelod unigol yn arwain, byddai'n ddefnyddiol i bob aelod o gyrff llywodraethu ymgymryd â hyfforddiant diogelu perthnasol er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i gyflawni eu swyddogaethau a deall eu cyfrifoldebau ehangach o ran diogelu. Ceir gwybodaeth ddefnyddiol arall am rôl llywodraethwyr yn diogelu ar wefan Llywodraethwyr Cymru.

Diffiniadau a dangosyddion camdriniaeth

Beth yw cam-drin?

Mae 'plentyn sy'n wynebu risg' yn blentyn:

- sy'n wynebu camdriniaeth, esgeulustod, neu fathau eraill o niwed neu mewn risg o wynebu hynny;
- y mae angen gofal a chymorth arno (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny ai peidio).

Mae plentyn yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso pan mae rhywun yn ei anafu neu'n methu â gweithredu er mwyn atal niwed. Gall plant gael eu cam-drin yn y teulu neu mewn sefydliad neu leoliad cymunedol, gan rywun maent yn ei adnabod, neu, yn fwy anaml, gan ddieithryn. Mae plentyn yn unrhyw un nad yw wedi cael ei ben-blwydd yn 18 oed eto. Felly, ystyr "plant" yw "plant a phobl ifanc" drwyddi draw. Nid yw'r ffaith bod plentyn wedi cael ei ben-blwydd yn 16 oed ac y gall fod yn byw'n annibynnol yn newid ei statws na'i hawl i wasanaethau nac i gael ei amddiffyn o dan Ddeddf Plant, 1989.

Dylai pawb wneud y canlynol:

- bod yn effro i ddangosyddion posibl o achosion o gamdriniaeth neu esgeulustod;
- bod yn effro i'r risgiau y gall camdrinwyr eu peri i blant;
- rhannu eu pryderon fel y gellir casglu gwybodaeth er mwyn helpu i asesu anghenion ac amgylchiadau'r plentyn;
- gweithio gydag asiantaethau er mwyn cyfrannu at y camau gweithredu sydd eu hangen i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn
- helpu'r plentyn a'i deulu

Y Categorïau o Gamdriniaeth yw Corfforol, Rhywiol, Emosiynol ac Esgeulustod. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) yn cyflwyno categori newydd sef Camdriniaeth Ariannol a all hefyd ddigwydd mewn perthynas â phlant. Gall gynnwys:

- dwyn cronfeydd ymddiriedolaeth plant neu bobl ifanc
- pwysau neu reolaeth drwy orfodaeth ar blentyn neu berson ifanc i ildio arian
- camddefnyddio arian a roddir i blant er mwyn diwallu eu hanghenion penodol fel budd-daliadau anabledd ac ati.

Cam-drin corfforol

Gall cam-drin corfforol gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu, neu unrhyw niwed corfforol arall i blentyn. Gellir achosi camdriniaeth gorfforol hefyd pan fydd rhiant neu ofalwr yn ffugio neu'n annog salwch plentyn y maent yn gofalu amdano.

Dangosyddion Camdriniaeth Corfforol

- cleisiau, marciau neu anafiadau na ellir eu hesbonio ar unrhyw ran o'r corff
- sawl clais – mewn clystyrau, yn aml ar ran uchaf y fraich, y tu allan i'r glun
- llosgiadau sigarêts / marciau brathu gan berson
- esgyrn wedi torri
- sgaldiadau, gyda marciau tasgu yn mynd ar i fyny,
- llosgiadau lluosog gydag ymyl wedi'i diffinio'n glir.

Newidiadau mewn ymddygiad a all hefyd ddynodi camdriniaeth gorfforol:

- ofn y caiff rhieni eu holi am esboniad
- ymddygiad ymosodol neu byliau o golli tymer yn ddifrifol
- gwingo wrth nesáu atynt neu eu cyffwrdd
- cyndyn i newid, er enghraifft mewn tywydd poeth
- iselder
- mynd i'w gragen
- mynd ar goll neu redeg i ffwrdd o gartref.

Cam-drin rhywiol

Mae cam-drin rhywiol yn cynnwys gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithredoedd rhywiol, p'un a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio. Gall y gweithredoedd gynnwys cyswllt corfforol, gan gynnwys gweithredoedd treiddgar neu anrheiddgar. Gallant gynnwys gweithredoedd digyswllt, fel cynnwys plant wrth edrych ar neu gynhyrchu deunydd pornograffig neu wyllo gweithredoedd rhywiol, neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol amhriodol.

Dangosyddion Camdriniaeth Rywiol

- poen neu gosi ar yr organau cenhedlu
- cleisio neu waedu ger yr organau cenhedlu
- clefyd a drosglwyddir yn rhywiol
- llif neu haint yn y wain
- poenau yn y stumog / beichiogrwydd
- anghysur wrth gerdded neu eistedd

Newidiadau mewn ymddygiad a all hefyd ddynodi camdriniaeth rywiol:

- newidiadau cyflym neu anesboniadwy mewn ymddygiad e.e. bod yn ymosodgar neu fynd i'w gragen
- ofn cael ei adael gyda pherson penodol neu grŵp o bobl
- cael hunllefau
- rhedeg i ffwrdd o gartref gwybodaeth rywiol y tu hwnt i'w oedran, neu lefel ddatblygiadol
- tynnu lluniau neu iaith rywiol
- problemau bwyta fel gorfwyta neu anorecsia
- hunan-niweidio neu anffurfio, sydd weithiau'n arwain at ymgeisiau i hunan-ladd
- dweud bod ganddo gyfrinachau na all ddweud wrth unrhyw un amdanynt
- ddim yn cael gwneud ffrindiau (yn enwedig yn y glasged)
- ymddwyn mewn ffordd amlwg rywiol tuag at oedolion

Cam-drin emosiynol

Cam-drin emosiynol yw cam-drin plentyn yn emosiynol yn barhaus gan achosi effeithiau andwyol difrifol a pharhaus ar ddatblygiad emosiynol y plentyn. Gall gynnwys cyfleu i blentyn ei fod yn ddiwerth, nad oes neb yn ei garu, ei fod yn annigonol neu ei fod ond yn werthfawr cyn belled â'i fod yn bodloni anghenion unigolyn arall. Gall gynnwys gosod disgwyliadau ar blant sy'n amhriodol o ran oedran neu ddatblygiad. Gall gynnwys achosi i blant deimlo'n ofnus neu mewn perygl yn rheolaidd, er enghraifft drwy fod yn dyst i gam-drin domestig o fewn y cartref, neu gael eu bwlio, neu gam-fanteisio ar blant neu eu llygru. Mae pob math o gam-drin plant yn cynnwys rhyw lefel o gam-drin emosiynol, ond gall ddigwydd ar ei ben ei hun.

Dangosyddion o gamdriniaeth emosiynol:

- ymddygiad niwrotig e.e. pwdu, troi'r gwallt, siglo
- methu â chwarae
- ofni gwneud camgymeriadau
- nam sydyn ar y lleferydd
- hunan-niweidio
- ofni y caiff rhieni eu holi am ei ymddygiad
- oedi datblygiadau o ran cynnydd emosiynol

Newidiadau mewn ymddygiad a all hefyd ddynodi esgeulustod:

- Eithafion ymagwedd goddefol ac ymosodol
- gorymateb i gamgymeriadau
- hunanddibriadiad ('dwi'n dwp, hyll, diwerth, ac ati')
- ymateb amhriodol i boen ('dwi'n haeddu hyn')

Esgeulustod

Esgeulustod yw methu â diwallu anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn yn barhaus, sy'n debygol o amharu'n ddifrifol ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Gall gynnwys rhiant neu ofalwr sy'n methu â darparu bwyd, lloches a dillad digonol, sy'n methu â diogelu plentyn rhag niwed corfforol neu berygl, neu sy'n methu â sicrhau bod gofal neu driniaeth feddygol briodol ar gael. Gall hefyd gynnwys esgeuluso anghenion emosiynol sylfaenol plentyn, neu beidio ag ymateb iddynt. At hynny, gall esgeulustod ddigwydd yn ystod beichiogrwydd pan fydd y fam yn camddefnyddio sylweddau.

Dangosyddion o Esgeulustod:

- llwgu drwy'r adeg, gan ddwyn bwyd gan blant eraill weithiau
- yn fudr neu'n 'ddrewllyd' drwy'r adeg
- colli pwysau, neu fod dan bwysau drwy'r adeg
- dillad amhriodol ar gyfer y tywydd.

Newidiadau mewn ymddygiad a all hefyd ddynodi esgeulustod:

- cwyno ei fod wedi blino drwy'r adeg
- peidio â gofyn am gymorth meddygol a/neu fethu â mynychu apwyntiadau
- prinder ffrindiau
- sôn am gael ei adael ar ei ben ei hun neu heb oruchwyliaeth.

Atodiad D

Cam-drin Ymddiriedaeth

Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi bod angen i bob aelod o staff wybod bod ymddygiad amhriodol gyda neu tuag at blant yn annerbyniol. Yn benodol, dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, mae'n drosedd i berson dros 18 oed (er enghraifft athro, gweithiwr ieuencid) gael cydberthynas rywiol â phlentyn dan 18 oed lle mae'r person hwnnw mewn sefyllfa o ymddiriedaeth mewn perthynas â'r plentyn hwnnw, hyd yn oed os yw'r gydberthynas yn gydlynol. Mae hyn yn berthnasol pan fydd y plentyn mewn addysg llawn amser a bod y person yn gweithio i'r un sefydliad â'r plentyn, hyd yn oed os nad yw'n addysgu'r plentyn.

Mae pob perthynas rhwng staff a disgyblion yn seiliedig ar ymddiriedaeth. Yn gyffredinol, gellir disgrifio perthynas o ymddiriedaeth yn un lle mae un parti mewn sefyllfa o ymddiriedaeth neu ddylanwad dros y llall, yn rhinwedd ei waith neu oherwydd natur y gweithgarwch. Efallai bod gan yr unigolyn sydd mewn sefyllfa o ymddiriedaeth y pŵer i gyflwyno datblygiad neu fethiant. Gall y berthynas gael ei hanffurfio drwy ofn neu ffafriaeth. Mae'n hanfodol i bawb yn y sefyllfaedd hyn o ymddiriedaeth ddeall y pŵer y mae'n ei roi iddynt dros y sawl maent yn gofalu amdano a'r cyfrifoldeb sydd ganddynt o ganlyniad i hynny. Tra bod perthynas o ymddiriedaeth o'r fath yn bodoli, mae'n anghywir gadael i berthynas ddatblygu mewn ffordd a allai arwain at berthynas rywiol. Bydd perthynas rywiol ynddi'i hun yn anghyfartal yn y bôn mewn perthynas o ymddiriedaeth, ac felly mae'n annerbyniol. Mae hefyd yn amhriodol oherwydd y byddai'r berthynas 'broffesiynol' o ymddiriedaeth yn cael ei newid.

Mae Deddf Troseddau Rhywiol (Diwygio) 2000 yn nodi cyfres o alwedigaethau y mae cyfriethiau Camfanteisio ar Sefyllfa o Ymddiriedaeth yn gymwys iddynt. Mae hyn yn cynnwys unrhyw un sy'n gweithio mewn sefydliad addysgol. Prif ddiben y darpariaethau Camfanteisio ar Ymddiriedaeth yw amddiffyn pobl ifanc 16 a 17 oed, yr ystyrir eu bod yn arbennig o agored i gael eu hecsbloetio gan rywun sydd mewn sefyllfa o ymddiriedaeth neu awdurdod yn eu bywydau.

Yn amodol ar nifer o ddiffiniadau cyfyngedig, mae'n drosedd i berson sydd mewn sefyllfa o ymddiriedaeth ymgymryd â gweithgarwch rhywiol ag unrhyw berson dan 18 oed y mae ganddo berthynas o ymddiriedaeth ag ef, ni waeth beth yw'r oedran cydsynio, hyd yn oed os yw sail eu perthynas yn gydsyniol. Mae perthynas yn bodoli pan fydd aelod o staff neu wirfoddolwr mewn sefyllfa o bŵer neu ddylanwad dros bobl ifanc 16 a 17 oed drwy rinwedd y gwaith neu natur y gweithgarwch dan sylw.

Mae'r egwyddorion yn gymwys ni waeth beth fo'r cyfeiriadedd rhywiol: nid yw perthnasau cyfunrhywiol na heterorywiol yn dderbyniad o fewn sefyllfa o ymddiriedaeth. Maent yn gymwys i bawb yn gyfartal, ni waeth beth fo'r rhyw, hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol nac anabled. Mae hwn yn faes lle mae'n bwysig iawn osgoi unrhyw stereoteipio rhywiol nac o fath arall. Hefyd, mae'n bwysig cydnabod y gall menywod yn ogystal â dynion gamfanteisio ar sefyllfa o ymddiriedaeth.

Dylai pob aelod o staff sicrhau bod eu perthynas â phobl ifanc yn briodol i'w hoedran a'u rhyw, a dylent ofalu nad yw eu hiaith a'u hymddygiad yn arwain at sylwadau na damcaniaethau. Mae angen rhoi gofal ac ystyriaeth o ran agweddau, ymddygiad ac iaith, yn enwedig pan fydd aelodau o staff yn delio â bechgyn a merched yn y glasod

Adolygiad o Bolisi

Caiff y polisi hwn ei adolygu a'i gadarnhau bob blwyddyn mewn cyfarfod llawn o'r corff llywodraethu o leiaf unwaith y flwyddyn a chaiff ei gofnodi yn y cofnodion. Efallai y bydd yr Uwch Berson Dynodedig neu'r Pennaeth am roi gwybodaeth i'r Corff Llywodraethu am y canlynol:-

- newidiadau i weithdrefnau diogelu;
- bod pob aelod o staff a'r llywodraethwyr wedi ymgymryd â hyfforddiant yn y 12 mis blaenorol;
- nifer yr achosion o natur diogelu yn yr ystod yn ystod y 12 mis blaenorol (heb fanylion nac enwau);
- ble a sut mae materion diogelu yn ymddangos yn y cwricwlwm;
- gwersi a ddysgwyd o adolygiadau o ymarfer plant neu ymarfer lleol.

	Enw	Llofnod	Dyddiad
Cadeirydd y Llywodraethwyr			
Pennaeth			

Dyddiad Adolygu	
-----------------	--